# Wlad lle mae'r fedwen hardd

Wlad lle mae'r fedwen hardd, wlad lle mae'r ceirw,
Wlad lle mae'r afanc swil eto yn rhydd,
Wlad, mae pob bryn a dôl eto'n fy ngalw'n ôl.
Hei hei-ia, hei-ia, hei hei-ia, hei-ia, hei hei-ia, hei-ia, hei-ia.

Draw yn y goedwig bell, hudol yw'r llannerch
sydd yn fy nenu'n ôl, 'nôl i'r hen fro,
Wlad, mae pob bryn a dôl eto'n fy ngalw'n ôl,
Hei hei-ia, hei-ia, hei hei-ia, hei-ia, hei hei-ia, hei-ia, hei-ia.

Neidio mae'r pysgod chwim; minnau sy'n rhwyfo,
Hollti drwy ddyfroedd clir afon a llyn,
Wlad, mae pob bryn a dôl eto'n fy ngalw'n ôl,
Hei hei-ia, hei-ia, hei hei-ia, hei-ia, hei hei-ia, hei-ia, hei-ia.

Codi fy mhabell wnaf ar lan yr afon,
Sisial ei dyfroedd glân miwsig im fydd,
Wlad, mae pob bryn a dôl eto'n fy ngalw'n ôl,
Hei hei-ia, hei-ia, hei hei-ia, hei-ia, hei hei-ia, hei-ia, hei-ia.